

# Cynllun datblygu Lleol (CDPLI) – Strategaeth a Ffefrir

## Adroddiad ar yr Aseiad o Effaith ar Les

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi effeithiau tebygol y cynnig ar les cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Sir Ddinbych, Cymru a'r byd.

Rhif Aseiad:	626
Disgrifad byr:	Mae'r CDLI yn ddogfen statudol y mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol ei pharatoi. Bydd y CDLI mewn grym am gyfnod o 15 mlynedd ac mae'n cynnwys polisiau allweddol ar y defnydd o dir a materion cysylltiedig megis tai, cyflogaeth, isadeiledd ac ardaloedd pwysig y mae'n rhaid eu diogelu. Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn nodi'r lefelau twf cyffredinol o fewn y CDLI a'r strategaeth ofodol a fydd yn arwain meysydd o dwf o fewn y cynllun terfynol. Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn amlinellu polisiau strategol lefel uchel ond nid yw'n cynnwys polisiau manwl na gwybodaeth am ddyraniadau tir, bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn ddiweddarach ar y cam Adneuo.
Dyddiad Cwblhau:	Fersiwn: 0
Cwblhawyd gan:	
Gwasanaeth cyfrifol:	Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd
Ardaloedd y mae'r cynnig yn effeithio arnynt:	Y sir gyfan
Ar bwy fydd y cynigion yn effeithio?	Mae'n bosibl y gallai'r CDLI effeithio ar bob preswlydd, ymwelydd a busnes yn Sir Ddinbych a'r ardaloedd cyfagos. Nid yw'r CDLI yn effeithio ar unrhyw grwpiau â nodweddion gwarchoddedig penodol yn fwy nac yn llai nag y mae'n effeithio ar y boblogaeth yn gyffredinol.
A gwblhawyd yr aseiad o effaith hwn fel grŵp?	Do

# ASESIAD O EFFAITH - CRYNODEB A CHASGLIADAU

Cyn i ni edrych yn fanwl ar gyfraniad ac effaith y cynnig, mae'n bwysig ein bod ni'n ystyried sut y bydd yr egwyddor o ddatblygu cynaliadwy'n cael ei chynnwys. Mae hyn yn golygu fod yn rhaid i ni weithredu mewn modd "sy'n ceisio sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain."

## Sgôr am gynaliadwyedd yr ymdriniaeth

★★★★ ( 3 seren allan o 4 ) Gwir Sgôr : 29 / 30.

## Goblygiadau'r Sgôr

Fel dogfen strategol sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad cynaliadwy dros gyfnod o 15 mlynedd dylai'r CDLI sgorio'n dda o ran cynaliadwyedd. Mae'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd, sy'n hysbysu'r broses o baratoi'r CDLI ar sail iteraidd, yn rhoi llawer mwy o fanylion am faterion cynaliadwyedd a lles. Bwriedir hefyd cynnal Asesiad o Effaith y Strategaeth a Ffeirir ar Les fel rhan o'r broses ymgynghori. Nid yw hyn eto'n ofyniad statudol ond bydd yn cael ei wneud fel arfer gorau.

## Crynodeb o Effaith

Nodau Llesiant

Sir Ddinbych Lewyrchus

Sir Ddinbych Gydnerth

Sir Ddinbych Iachach

Sir Ddinbych Sy'n Fwy Cyfartal

Sir Dinbych o Gymunedau Cydlynol

Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu

Sir Ddinbych sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Positif

Niwtral


Positif

Positif

Niwtral

Niwtral

Positif



## Prif Gasgliadau

Mae'r Strategaeth CDLI a Ffeirir yn ddogfen lefel uchel sy'n ceisio hyrwyddo datblygiad cynaliadwy yn y Sir. Mae'r rhan fwyaf o effeithiau yn debygol o fod yn niwtral neu'n positif gan fod cynaliadwyedd yn greiddiol i'r cynllun. Mae'r strategaeth wedi bod yn destun Gwerthusiad Cynaliadwyedd sy'n asesu effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y strategaeth a'r opsiynau a ystyriwyd. Bydd Asesiad o Effaith ar Iechyd yn cael ei gynnal fel rhan o broses ymgynghori'r Strategaeth a Ffeirir.

Bydd llawer o'r mesurau lliniaru a ddynodwyd wedi eu cynnwys ar y cam Adneuo pan gaiff polisiau manwl eu datblygu a dyraniadau tir eu hadnabod a fydd yn dangos bod modd lliniaru effeithiau negyddol.

## Tystiolaeth i gefnogi'r Asesiad o Effaith ar Les

- Rydym wedi ymgynghori a chyhoeddi ymchwil neu arweiniad sy'n rhoi gwybodaeth ynghylch effeithiau tebygol y cynnig
- Rydym wedi cynnwys arbenigwr/ymgyngori â grŵp sy'n cynrychioli'r rhai hynny y gallai'r cynnig effeithio arnynt
- Rydym wedi ymgysylltu â phobl y bydd y cynnig yn effeithio arnynt

# YR EFFAITH DEBYGOL AR SIR DDINBYCH, CYMRU A'R BYD

## Sir Ddinbych Lewyrchus

<b>Effaith gyffredinol</b>	Positif
<b>Cyfiawnhad dros yr effaith</b>	Wrth archwilio'r materion y mae'n ofynnol i'r CDLI fynd i'r afael â nhw, aseswyd yr amcanion yn erbyn y nodau llesiant cenedlaethol, Cynllun Llesiant Conwy/Sir Ddinbych a blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol. Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn gosod y fframwaith ar gyfer lefel briodol o dwf yn y sir gan ddiogelu adnoddau hanfodol ar yr un pryd.
<b>Camau gweithredu ychwanegol angenrheidiol</b>	Mae'n rhaid i bolisiau manwl a dyraniadau tir ar y cam adneuo sicrhau bod safleoedd a ddyrannwyd wedi'u lleoli'n gynaliadwy er mwyn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i ddarparu tai priodol a datblygu cyflogaeth. Gall y defnydd o gytundebau llafur lleol a gwaith gyda'r sector addysg helpu i sicrhau bod y gweithlu'n meddu ar y sgiliau angenrheidiol. Gallai canolbwyntio ar ddatblygiadau tir llwyd leihau faint o dir maes glas sy'n angenrheidiol

## Effeithiau cadarnhaol a ddynodwyd:

<b>Cymdeithas carbon isel</b>	Mae'r Strategaeth yn anelu at ddarparu digon o dir datblygu i ddiwallu'r angen mewn lleoliadau cynaliadwy gyda chyfleusterau a gwasanaethau sy'n lleihau'r angen i deithio.
<b>Cyfathrebiadau, isadeiledd a chlodiant o safon</b>	Mae amcanion y CDLI yn cefnogi adfywiad, datblygiad cynaliadwy, ynni adnewyddadwy ac adnoddau mwynol a datblygiad yr isadeiledd.
<b>Datblygiad Economaidd</b>	Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn cynnwys amcanion sy'n cefnogi datblygiad economaidd, gan cynnwys yr economi wledig ac adfywio canol trefi. Yn ogystal mae polisiau strategol sy'n cefnogi datblygiadau priodol ar dir cyflogaeth, manwerthu ac yn yr economi ymwelwyr wedi'u cynnwys.
<b>Sgiliau o safon ar gyfer yr hirdymor</b>	Bydd cynnydd mewn gweithgaredd adeiladu yn arwain at alw am weithwyr medrus.
<b>Swyddi o safon ar gyfer yr hirdymor</b>	Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn cynnwys safle strategol Bodelwyddan sydd o bwysigrwydd rhanbarthol ac sy'n adlewyrchu dyheadau Bargaen Twf Gogledd Cymru.  Bydd dyraniadau a pholisiau tir cyflogaeth yn cefnogi datblygiad economaidd cynaliadwy a fydd yn darparu swyddi yn yr hirdymor.
<b>Gofal Plant</b>	Gallai'r galw cynyddol am ofal plant wrth i'r cyflenwad tai gynyddu gefnogi busnesau cyfredol a darparu cyfleoedd ar gyfer rhai newydd.

## Effeithiau Negyddol a Ddynodwyd:

<b>Cymdeithas Carbon Isel</b>	Gallai canolbwyntio datblygiadau o amgylch gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli er mwyn lleihau teithio ar gyfer y mwyafrif effeithio ar yr ardaloedd mwy gwledig a chynyddu'r angen i deithio i rai.
<b>Cyfathrebiadau, Isadeiledd a Chludiant o safon</b>	Bydd datblygu'n effeithio ar gapasiti'r isadeiledd ac efallai y bydd angen defnyddio rhai adnoddau sylfaenol. Bydd peth tir maes glas yn anghenrheidiol i ddiwallu anghenion datblygu gan nad oes gan Sir Ddinbych ddigon o dir maes llwyd.
<b>Datblygiad Economaidd</b>	
<b>Sgiliau o safon ar gyfer yr hirdymor</b>	Os oes prinder sgiliau yn lleol yna efallai y bydd datblygiad yn cael ei ddal yn ôl ac y bydd o bosibl angen i weithwyr deithio i mewn i'r sir.  Mae'n bosibl y bydd effaith ar gapasiti ysgolion gan y bydd diffyg datblygiadau tai yn gostwng niferoedd mewn ysgolion a gallai cynnydd roi pwysau ar lefydd mewn i ysgolion.
<b>Swyddi o safon ar gyfer yr hirdymor</b>	
<b>Gofal plant</b>	Os yw datblygiadau wedi'u lleoli mewn ardaloedd mwy gwledig gallai argaeledd gofal plant fod yn fwy o broblem.

## Sir Ddinbych Gydnerth

<b>Effaith Gyffredinol</b>	Niwtral
<b>Cyfiawnhad dros yr effaith</b>	Mae'r CDLI yn ceisio dod o hyd i gydbwysedd rhwng yr angen i ddatblygu a'r angen i ddiogelu'r amgylchedd, mae hyn wrth galon y broses o baratoi'r cynllun. Bydd y Strategaeth a Ffefrir yn cyfeirio twf at y lleoliadau mwyaf cynaliadwy ond fe fydd rhai effeithiau amgylcheddol y bydd angen eu lliniaru.  Bydd risg llifogydd ac effeithiau amgylcheddol yn feini prawf allweddol wrth asesu addasrwydd safleoedd posibl i'w cynnwys yn y CDLI Adnau.
<b>Camau gweithredu ychwanegol angenrheidiol</b>	Bydd angen datblygu polisiau manwl er mwyn sicrhau y caiff unrhyw effeithiau amgylcheddol negyddol posibl cysylltiedig â datblygiad arfaethedig eu lliniaru. Byddai enghreifftiau'n cynnwys yr angen am dirlunio a phlannu ychwanegol, diogelu coridorau a chynefinoedd bywyd gwylt.

## Effeithiau Cadarnhaol a Ddynodwyd:

<b>Bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol</b>	Mae Amcanion a Pholisiau Strategol wedi eu cynnwys er mwyn diogelu, cefnogi a gwella bioamrywiaeth.
--	---

<b>Bioamrywiaeth yn yr amgylchedd adeiledig</b>	Mae Amcanion a Pholisïau Strategol wedi eu cynnwys er mwyn diogelu, cefnogi a gwella bioamrywiaeth.
<b>Lleihau gwastraff, aildddefnyddio ac ailgylchu</b>	Mae'r polisi strategol yn atal gwastraff yn y lle cyntaf a'i leihau drwy aildddefnyddio ac ailgylchu.
<b>Lleihau'r defnydd o ynni/tanwydd</b>	Drwy leoli'r twf mewn tai a chyflogaeth mewn ardaloedd y gellir cyrraedd atynt drwy dulliau ar wahân i gerbydau preifat gellir lleihau'r defnydd o danwydd
<b>Ymwybyddiaeth pobl o'r amgylchedd a bioamrywiaeth</b>	Gall cynigion datblygu annog unigolion a chymunedau i edrych yn fwy agos ar eu hamgylchedd. Gallai hynny gynyddu ymwybyddiaeth a gwybodaeth ac arwain at roi mwy o werth ar fioamrywiaeth a'r amgylchedd.
<b>Rheoli risg llifogydd</b>	Mae amcan wedi'i gynnwys sy'n ceisio mynd i'r afael ag effeithiau'r risg o lifogydd a newid yn yr hinsawdd. Bydd datblygiadau'n cael eu cyfeirio oddi wrth feysydd glas yn y parth llifogydd C2 yn unol â pholisi cenedlaethol.

## Effeithiau negyddol a ddynodwyd:

<b>Bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol</b>	Bydd angen peth tir maes glas i ddiwallu anghenion datblygu'r Sir. Mae diogelu'r amgylchedd a'r angen i ddatblygu wedi eu cydbwysu ac nid yw bob amser yn bosibl osgoi'r holl effeithiau negyddol wrth ddatblygu safleoedd. Mae'n bosibl y collir coed, gwrychoedd ayyb.
<b>Bioamrywiaeth yn yr amgylchedd adeiledig</b>	Gall rhai meysydd llwyd fod â gwerth bioamrywiol uchel os ydynt wedi'u gadael heb eu cyffwrdd ers peth amser. Gallai ailddatblygu effeithio ar hyn.
<b>Lleihau gwastraff, aildddefnyddio ac ailgylchu</b>	Bydd pob datblygiad yn creu rhywfaint o wastraff y bydd angen ei reoli
<b>Lleihau'r defnydd o ynni/tanwydd</b>	Mae hyn yn gofyn am newid mewn ymddygiad sydd y tu hwnt i gwmpas y CDLI
<b>Ymwybyddiaeth pobl o'r amgylchedd a bioamrywiaeth</b>	Bydd angen peth tir maes glas i ddiwallu anghenion datblygu'r Sir. Mae diogelu'r amgylchedd a'r angen i ddatblygu wedi'u cydbwysu ac nid yw bob amser yn bosibl osgoi'r holl effeithiau negyddol wrth ddatblygu safleoedd. Mae'n bosibl y collir coed, gwrychoedd ayyb. Os codir lefelau gwerthfawrogiad efallai y bydd yr ymdeimlad o golled mewn cymuned yn fwy os oes canfyddiad y bu effaith negyddol ar yr amgylchedd.
<b>Rheoli risg llifogydd</b>	

## Sir Ddinbych Iachach

<b>Effaith gyffredinol</b>	Cadarnhaol
----------------------------	------------

<b>Cyfiawnhad dros yr effaith</b>	Mae darpariaeth tai fforddiadwy o safon dda yn angen dynol sylfaenol. Bydd dyraniad tir ar gyfer tai yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddiwallu'r angen hwn a bydd hynny yn ei dro o fudd i les corfforol a meddyliol cyffredinol.
<b>Camau gweithredu ychwanegol angenrheidiol</b>	Bydd yr angen i osgoi niwed a mesurau lliniaru wedi'u cynnwys yn y polisiau manwl a fydd yn cael eu datblygu ar gam nesaf y CDLI. Bydd ansawdd tir amaethyddol yn faen prawf asesu wrth ystyried safleoedd posibl ac ni fydd tir BMV yn cael ei ddewis oni bai nad oes tir addas arall ar gael.

## Effeithiau cadarnhaol a ddynodwyd:

<b>Amgylchedd cymdeithasol a ffisegol sy'n annog ac yn cefnogi iechyd a lles</b>	Mae'r CDLI yn anelu at wneud darpariaeth ddigonol i ddiwallu anghenion ein cymunedau am dai a chyflogaeth a chyfleusterau hamdden a chymunedol. Drwy anelu at leoli datblygiad mewn ardaloedd y gellir cyrraedd atynt drwy ddulliau heblaw cerbyd preifat, bydd Teithio Llesol yn cael ei annog. Bydd angen Tai Fforddiadwy i gefnogi cymunedau cytbwys. Bydd yn ofynnol i ddatblygiadau gynnwys mannau agored priodol er mwyn sicrhau cyfleoedd ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau hamdden. Bydd isadeiledd gwyrdd a glas yn cael eu diogelu a'u gwella. Mae tai yn angen dynol sylfaenol a bydd mynediad i dai fforddiadwy o safon dda yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at les corfforol a meddyliol.
<b>Mynediad i fwyd da ac iach</b>	Dylid annog darpariaeth rhandiroedd a mannau tyfu cymunedol drwy bolisiau cynllunio.
<b>Lles emosiynol a meddyliol pobl</b>	Mae tai yn angen dynol sylfaenol a bydd mynediad i dai fforddiadwy o safon dda yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at les corfforol a meddyliol
<b>Mynediad i ofal iechyd</b>	Amcanion a pholisiau strategol perthnasol i hyrwyddo lles a darpariaeth isadeiledd a gwasanaethau wedi eu cynnwys yn y Strategaeth a Ffefrir.

<b>Cymryd rhan mewn cyfleoedd hamdden</b>	Bydd yn ofynnol i ddatblygiadau ddarparu mannau agored priodol i sicrhau cyfleoedd ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau hamdden. Caiff yr isadeiledd gwyrdd a glas eu diogelu a'u gwella.
---	--

## Effeithiau Negyddol a Ddynodwyd

<b>Amgylchedd cymdeithasol a ffisegol sy'n annog ac yn cefnogi iechyd a lles</b>	
<b>Mynediad i fwyd iach o ansawdd da</b>	Efallai y collir rhywfaint o dir amaethyddol sy'n addas ar gyfer cynhyrchu bwyd.
<b>Lles emosiynol a meddyliol pobl</b>	Gall y broses o greu cynllun datblygu ac yna gwneud cais cynllunio ysgogi ymatebion emosiynol cryf mewn unigolion a chymunedau. Gall fod yn broses wrthwynebol a all gael effaith negyddol ar iechyd meddyliol unigolion.
<b>Mynediad i ofal iechyd</b>	Gallai dylanwad cyfyngedig ar ddarpariaeth yn y sector gofal iechyd sylfaenol arwain at gynnydd mewn tai cyn i'r ddarpariaeth gofal iechyd gynyddu mewn ardal.
<b>Cymryd rhan mewn cyfleoedd hamdden</b>	

## Sir Ddinbych Fwy Cyfartal

<b>Effaith Gyffredinol</b>	Cadarnhaol
<b>Cyfiawnhad dros yr effaith</b>	Mae'r CDLI yn anelu at ddarparu tai, cyflogaeth, cyfleoedd manwerthu a hamdden i bob aelod o'r gymuned. Bydd gwell cyfleoedd yn cael effaith positif yn gyffredinol.
<b>Camau gweithredu ychwanegol angenrheidiol</b>	Gofalu bod pob cyfathrebiad yn pwysleisio'r ffaith fod yn rhaid diwallu anghenion teuluoedd sipsiwn a theithwyr ac na fydd unrhyw sylwadau gwahaniaethol yn cael eu goddef. Hyrwyddo negeseuon positif o brofiadau mewn ardaloedd eraill.

## Effeithiau Positif a Ddynodwyd:

<p><b>Gwella lles pobl â nodweddion gwarchoddedig, sef oed; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas neu bartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.</b></p>	<p>Nid yw'r Strategaeth CDLI a Ffefrir yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un o'r grwpiau â nodweddion gwarchoddedig. Bydd amrywiaeth mawr o wahanol fathau o dai yn cael eu cynnig, yn cynnwys darpariaeth ar gyfer pobl hŷn. Bydd darpariaeth gadarnhaol a pholisïau seiliedig ar feini prawf yn cael eu datblygu i ddiwallu anghenion y gymuned sipsiwn a theithwyr yn unol â'r angen.</p>
<p><b>Pobl sy'n dioddef gwahaniaethu neu anfantais</b></p>	<p>Bydd darpariaeth bositif a pholisïau seiliedig ar feini prawf yn cael eu datblygu i ddiwallu anghenion y gymuned sipsiwn a theithwyr yn unol a'r galw.</p>
<p><b>Ardaloedd gyda deilliannau economaidd, iechyd neu addysgol gwael</b></p>	<p>Wrth geisio gwella safon tai a chyfleoedd cyflogaeth drwy ddatblygiadau newydd ac adfywio, mae'n bosibl y bydd gwell gyfleoedd i ardaloedd sydd ar hyn o bryd yn profi amddifadedd.</p>
<p><b>Pobl mewn tlodi</b></p>	<p>Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn anelu at leoli cyfleoedd tai a chyflogaeth mewn lleoliadau cynaliadwy y gellir cyrraedd atynt drwy ddulliau ar wahân i gerbydau preifat er mwyn gwella cyfleoedd cyflogaeth. Mae'r Safle Strategol ym Modelwyddan yn brosiect allweddol ar gyfer twf economaidd yn Sir Ddinbych ac ar draws y rhanbarth.</p>



## Effeithiau positif a ddynodwyd

<b>Gwella lles pobl â nodweddion gwarchoddedig, sef oed; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas neu bartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.</b>	Y ddwy brif ganolfan yn Sir Ddinbych, Rhyl a Phrestatyn, fyddai'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy ar gyfer datblygu o ystyried yr amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau hygyrch sydd eisoes yno. Mae'r canolfannau hyn fodd bynnag wedi'u cyfyngu i raddau helaeth iawn gan y risg o lifogydd, daearyddiaeth a chyfyngiadau priffyrdd. Gallai'r angen i leoli mwy o ddatblygiadau mewn ardaloedd eraill effeithio ar rai pobl gyda nodweddion gwarchoddedig os oes yn rhaid iddynt deithio ymhellach i gael gwasanaethau.
<b>Ardaloedd gyda deilliannau economaidd, iechyd neu addysgol gwael</b>	Mae dynodi angen a chymau i wneud darpariaeth gadarnhaol ar gyfer teuluoedd sipswn a theithwyr yn debygol o greu gelyniaeth tuag at y grŵp hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau a phrofiadau o wersylloedd diawdurdod. Gallai hyn arwain at ragor o wahaniaethu.
<b>Pobl mewn tlodi</b>	
<b>Ardaloedd gyda deilliannau economaidd, iechyd neu addysgol gwael</b>	

## Sir Dinbych o gymunedau cydlynus

<b>Effaith Gyffredinol</b>	Niwtral
<b>Cyfiawnhad dros yr effaith</b>	Mae datblygu yn angenrheidiol i ddiwallu angen ein cymunedau ond prin iawn y ceir cydsyniad o ran ble y dylai ddigwydd. Yr ardaloedd mwyaf cynaliadwy ar gyfer datblygu yw'r rhai mwy trefol, bydd datblygu cyfyngedig i gefnogi cymunedau gwledig yn cael ei ganiatau.
<b>Camau gweithredu ychwanegol angenrheidiol</b>	Ceisio sicrhau fod pawb yn deall yr angen am ddatblygu i ddiwallu anghenion cymunedau. Sicrhau fod y broses yn agored ac yn dryloyw fel y bydd pobl yn gallu gweld sut y daethpwyd i benderfyniad hyd yn oed os nad ydynt yn cytuno ag o. Polisiâu drafft sy'n ceisio sicrhau bod digon o dwf mewn ardaloedd gwledig i gynnal cymunedau ond gyda chynaliadwyedd cyffredinol mewn golwg.

## Effeithiau positif a ddynodwyd:

<b>Cymunedau ac unigolion diogel</b>	Bydd y CDLI yn annog rhoi ystyriaeth i ddiogelwch cymunedol fel rhan annatod o'r holl gynigion datblygu. Mae diogelwch cymunedol yn elfen annatod o'r polisiau strategol allweddol.
<b>Cyfranogiad a gwytnwch cymunedol</b>	Mae'r Cytundeb Darparu cytunedig yn nodi o fewn y Strategaeth Ymgysylltiad Cymunedol gyda phwy, sut a pryd y byddwn yn ymgynghori ac yn ymgysylltu. Mae'r hyd y camau ymgynghori bob amser yn hwy na'r cyfnod statudol gofynnol ac rydym yn derbyn sylwadau ar amrywiaeth o fformatau. Rydym yn cynnal sesiynau ymgysylltu yn rheolaidd gyda chymunedau lleol er mwyn eu helpu nhw i ymgysylltu'n fwy cynhyrchiol ac i gael gwell dealltwriaeth o'r broses CDLI. Mae crynodebau heb fod yn dechnegol a fersiynau hawdd eu darllen yn cael eu darparu.
<b>Atyniad yr ardal</b>	Mae'r CDLI yn gofyn am safon uchel o ddyluniad ym mhob datblygiad newydd yn ogystal â manau agored a thirlunio. Mae'n rhoi amddiffyniad i'n hamgylchedd, ein tirlun a'n treftadaeth adeiledig a diwylliannol safon uchel.
<b>Cymunedau cydlynol</b>	Caiff Teithio Llesol ei hyrwyddo drwy'r CDLI. Caiff siopau lleol a chyfleusterau cymunedol eu diogelu rhag dulliau datblygu amgen.
<b>Gwytnwch gwledig</b>	Bydd nifer cyfyngedig o dai newydd yn cael eu caniatáu mewn ardaloedd gwledig wedi'u hanelu'n bennaf at ddiwallu anghenion lleol. Mae polisiau cyflogaeth gwledig yn annog mentrau gwledig priodol

## Effeithiau negyddol a ddynodwyd:

<b>Cymunedau ac unigolion diogel</b>	
<b>Cyfranogiad a gwytnwch cymunedol</b>	Mae Cynllunio yn aml yn broses sy'n gwahanu cymunedau
<b>Atyniad yr ardal</b>	Bydd rhywfaint o dir maes gwyrdd yn angenrheidiol i ddiwallu anghenion datblygu'r Sir a allai effeithio'n negyddol ar atyniad yr ardal.
<b>Cymunedau cydlynol</b>	Efallai y bydd rhai effeithiau negyddol ar ardaloedd mwy gwledig lle cyfyngir ar ddatblygu
<b>Gwytnwch gwledig</b>	Efallai y bydd rhai effeithiau negyddol ar ardaloedd mwy gwledig lle cyfyngir ar ddatblygu.

## Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu

<b>Effaith gyffredinol</b>	Niwtral
----------------------------	---------

<b>Cyfiawnhad dros yr effaith</b>	Nid yw'n bosib darogan a fydd preswylwyr tai'r dyfodol yn siaradwyr Cymraeg ai peidio. Mae amrywiaeth o fathau o dai yn angenrheidiol o dan y polisi i ddiwallu anghenion y gymuned leol. Gallai darpariaeth tai fforddiadwy o safon dda annog pobl leol i aros neu ddychwelyd i'r ardal a bydd cyfran o'r rhain yn siaradwyr Cymraeg
<b>Camau gweithredu ychwanegol angenrheidiol</b>	Gallai sicrhau cymysgedd da o dai a mynediad at gyfleoedd cyflogaeth o safon annog pobl leol i aros neu ddychwelyd i'r ardal a bydd canran o'r rhain yn siaradwyr Cymraeg. Ar gyfer y CDLI Adnau bydd y diffiniad o ardaloedd ieithyddol sensitif yn cael ei archwilio.

### Effeithiau :

<b>Pobl yn defnyddio'r Gymraeg</b>	Drwy ddarparu tai o safon a chyfleoedd cyflogaeth bydd mwy o bobl leol sy'n siarad Cymraeg o bosibl yn cael eu hannog i aros yn Sir Dinbych neu i ddychwelyd os ydynt wedi symud i ffwrdd. Bydd canran o'r holl dai yn fforddiadwy i ddiwallu angen lleol yn benodol a gallai hyn helpu pobl leol i gael tai yn eu hardal eu hunain.
<b>Hyrwyddo'r Gymraeg</b>	Caiff effeithiau posibl ar y Gymraeg eu hasesu drwy'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd. Caiff amcanion y CDLL a pholisïau allweddol eu cynnwys i gefnogi a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy'r CDLI.
<b>Diwylliant a Threftadaeth</b>	Caiff safleoedd ac asedau hanesyddol eu diogelu rhag datblygiad amhriodol yn y CDLI. Bydd y broses o ddethol safleoedd yn asesu'r effeithiau posibl ar ddiwylliant a threftadaeth ac yn osgoi unrhyw effeithiau andwyol.

### Effeithiau negyddol a ddynodwyd:

<b>Pobl yn defnyddio'r Gymraeg</b>	Does dim rheolaeth dros feddiant tai ar y farchnad. Mae canfyddiad bod adeiladu tai newydd yn denu mewnfudiad ond nid yw hyn wedi'i gefnogi gan dystiolaeth o arolygon Meddiannaeth Tai Newydd.
<b>Hyrwyddo'r Gymraeg</b>	
<b>Diwylliant a Threftadaeth</b>	

## Sir Ddinbych sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

<b>Effaith gyffredinol</b>	Cadarnhaol
<b>Cyfiawnhad dros yr effaith</b>	Mae'r CDLI yn un o'r prif ddulliau o weithio ar sail fwy rhanbarthol. Mae gofyniad i gydweithio mwy gyda chymdogion a rhanddeiliaid allweddol eraill.
<b>Camau gweithredu ychwanegol angenrheidiol</b>	Gellid cynnwys cytundebau llafur lleol o fewn caniatâd cynllunio mawr. Mae'n rhaid i'r deunyddiau a fydd yn cael eu defnyddio gael eu cymeradwyo ar y cam cynllunio ac efallai y bydd yn bosibl pennu deunyddiau mwy lleol yn amodol ar ymarferoldeb.

### Effeithiau positif a ddynodwyd:

<b>Cadwyni cyflenwi lleol, cenedlaethol a rhyngwladol</b>	Bydd darparu ar gyfer datblygu yn helpu i gefnogi cadwyni cyflenwi lleol a rhanbarthol a'r farchnad lafur. Bydd cynnwys safleoedd sy'n berthnasol i Gynnig Twf Economaidd Gogledd Cymru yn dangos fod y CDLI yn edrych yn rhanbarthol o ran datblygiad economaidd.
<b>Hawliau Dynol</b>	
<b>Darpariaeth gwasanaeth ehangach yn yr ardal leol neu'r rhanbarth</b>	Mae'r CDLI yn cael ei baratoi mewn cydweithrediad agos â'n hawdurdodau cyfagos a rhanddeiliaid allweddol eraill megis Cyfoeth Naturiol Cymru, BIPBC a Dŵr Cymru. Roedd Cynllun Lles Conwy/Sir Ddinbych yn hollbwysig o ran pennu'r amcanion ar gyfer y CDLI.

### **Effeithiau negyddol a ddynodwyd:**

<b>Cadwyni cyflenwi lleol, cenedlaethol a rhyngwladol</b>	Efallai y bydd rhai o'r deunyddiau a ddefnyddir wrth ddatblygu'n dod o'r tu allan i'r rhanbarth
<b>Hawliau Dynol</b>	
<b>Darpariaeth gwasanaeth ehangach yn yr ardal leol neu'r rhanbarth</b>	

